# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Tachwedd 2004 i'w hateb ar 17 Tachwedd 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**1. Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth sy'n cael ei wneud i gynyddu nifer y menywod sy'n uwch reolwyr mewn awdurdodau lleol. (OAQ39385)

**2. Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch manteisio ar fudd-daliadau'r dreth gyngor. (OAQ39396)

**3. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y bydd Cynllun Gofodol Cymru yn datblygu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru. (OAQ39382)

**4. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y cymorth a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad i lywodraeth leol yn Abertawe. (OAQ39381)

**5. Brian Gibbons (Aberafan):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fesur perfformiad awdurdodau lleol Cymru. (OAQ39421)

**6. Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i chymheiriaid yn San Steffan ynghylch disodli system y dreth gyngor a rhoi system drethu deg a blaengar yn ei lle. (OAQ39417)

**7. Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cymorth a roddir i Gynghorwyr Cymru. (OAQ39397)

**8. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y setliad llywodraeth leol ar Gyngor Sir Ynys Môn. (OAQ39412)

**9. Brian Gibbons (Aberafan):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i roi ei hagenda ar gyfer awdurdodau lleol ar waith. (OAQ39401)

**10. Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ailfandio'r Dreth Gyngor ar Gaerdydd. (OAQ39367)

**11. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud i hwyluso llwyddiannau ym maes Llywodraeth Leol yn Abertawe. (OAQ39380)

**12. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch lefelau'r Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf. (OAQ39393)

**13. Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynorthwyo Llywodraeth Leol â'i nod o wella gwasanaethau lleol. (OAQ39376)

**14. Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar â llywodraeth leol ynghylch datblygu gwasanaethau cyhoeddus. (OAQ39413)

**15. Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i helpu'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da. (OAQ39395)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**1. David Davies (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y Ddeddf Cludiant i'r Ysgol. (OAQ39443)

**2. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog mwy o bobl ifanc i ddilyn addysg a hyfforddiant pellach. (OAQ39507)

**3. Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar absenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru. (OAQ39496)

**4. Carl Sargeant ( Alun a Glannau Dyfrdwy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brentisiaethau yn Alun a Glannau Dyfrdwy. (OAQ39492)

**5. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch ei gynlluniau i ad-drefnu ysgolion. (OAQ39480)

**6. Jeff Cuthbert (Caerffili);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y niferoedd sydd wedi manteisio ar Grantiau Dysgu'r Cynulliad. (OAQ39449)

**7. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar addysg anghenion arbennig yng Nghymru. (OAQ39452)

**8. Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cyrsiau addysg bellach sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. (OAQ39476)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio sut y bydd ei pholisïau ar ffioedd ychwanegol yn adlewyrchu barn Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod "mewn egwyddor, yn anghywir". (OAQ39484)

**10. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt addysg gydol oes yng Nghymru. (OAQ39506)

**11. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddysgu ieithoedd modern. (OAQ39467)

**12. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y gwasanaethau bysiau ysgol sydd ar gael yn Nwyrain De Cymru. (OAQ39466)

**13. Janice Gregory (Ogwr);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thriwantiaeth mewn ysgolion. (OAQ39501)

**14. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gymorth i athrawon dan hyfforddiant. (OAQ39482)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyngor y mae wedi'i gynnig i Gomisiwn Rees ar strwythur ffioedd dysgu yng Nghymru ar ôl 2007. (OAQ39465)